



Beth arall sy'n byw wrth y pwll?

Craffu ar amffibiaid




Wrth chwilota mewn pyllau yn **Arolwg Dŵr OPAL**, efallai y gwelwch chi frogaod, llyffantod neu fadfallod, neu eu hwyau neu benbyliaid. Efallai y byddwch yn eu dal yn eich rhwyd hyd yn oed! Bydd y canllaw bach hwn yn eich helpu i adnabod yr holl amffibiaid rydych chi'n debygol o'u gweld. Rhowch wybod i ni beth welsoch chi! Cofnodwch y gwahanol bethau a welsoch yn www.OPALexplorenature.org.

Y Broga *Rana temporaria*

Llawnddfw yn 6-7 cm. Croen llyfn a llaith. Mae'r lliw yn amrywio o frown i felyn ac oren. Mae ganddo nifer amrywiol o smotiau a streipiau du. Mae gan rai o'r brogaod benyw farciau coch ar ran isaf y corff ac oddi tanynt.

Maen nhw'n bridio'n gynnar yn y gwanwyn. Pan fydd y penbyliaid yn deor, maen nhw'n ddu, ond yn newid eu lliw i gymysgedd o ddu ac efydd yn fuan. Mae'r brogaod ifanc yn gadael y dŵr ganol haf.



Llyffant dafadennog *Bufo bufo*

Llawnddfw yn 5-9 cm. Croen garw. Yn frown gyda marciau tywyllach. Weithiau maen nhw bron yn ddu neu'n rhuddgoch. Yn symud trwy lamau bach yn hytrach na neidio'n uchel fel y Broga.


Maen nhw'n bridio yn y gwanwyn, trwy ddodwy griff sy'n edrych fel llinynnau o jeli wedi'u lapio o gwmpas planhigion. Mae llyffantod ifanc newydd yn aml yn dywyll iawn eu lliw.



Broga'r Gors *Pelophylax ridibundus*

Llawnddfw hyd at 15 cm. Broga anfrodorol, sy'n dod yn fwyfwy cyffredin. Mae'r lliw yn amrywio ond fel rheol bydd rhywfaint o wyrdd llachar. Bydd sribed gwelw yn rhedeg ar hyd ei gefn yn aml.

Maen nhw'n bridio yn hwyr yn y gwanwyn a dechrau'r haf. Mae'r llyffantod gwryw yn galw'n uchel ar yr adeg hon trwy chwythu aer i mewn i sachau'r llais sy'n edrych fel dau falŵn o boptu'r pen. Mae'n well gan froga'r gors gorff mawr o ddŵr ac mae'n aros yn agos i'r dŵr trwy gydol yr haf.



dim mwgwd du y tu ôl i'r llygad



Dylech gymryd gofal bob amser wrth weithio'n agos at ddŵr: darllenwch y canllawiau iechyd a diogelwch yn: www.rosopa.com/leisuresafety/adviceandinformation/watersafety

Madfall Ddŵr Gyffredin

Lissotriton vulgaris

Mae'n tyfu hyd at 10 cm. Mae gan y gwryw a'r fenyw fol oren / melyn gyda smotiau crwn du. Mae gan y gwryw sy'n bridio grib donnog yn rhedeg o'i ben i flaen ei gynffon.


Mae'n rhywogaeth gyffredin mewn pyllau gardd yn aml. Gwelir y rhai llawn dwf yn y gwanwyn a'r penbyliaid tua diwedd y gwanwyn a thrwy gydol yr haf (weithiau yn y gaeaf hefyd).



Madfall Ddŵr Balfog

Lissotriton helveticus

Mae'n tyfu hyd at 9 cm, ond weithiau mae'n llawer llai. Mae rhimyn yn rhedeg ar hyd cefn y gwryw sy'n bridio (nid crib donnog). Mae'r fenyw yn edrych yn debyg i'r fadfall ddŵr gyffredin ond mae ganddi wddf gwelw neu o liw pinc.




Madfall Ddŵr Gribog

Triturus cristatus

Gall dyfu hyd at 16 cm, ond fel rheol mae'n llai. Mae'r croen yn arw. Mae gan y gwryw a'r fenyw fol oren / melyn gyda smotiau duon anghyson. Mae gan y gwryw grib ddanheddog yn rhedeg ar hyd ei gefn gyda thoriad ar waelod y gynffon.

Mae gan y penbyliaid fysedd a bysedd traed hir a marciau tywyll ar asgell y gynffon. Mae'n tyfu hyd at 5 cm erbyn diwedd yr haf.

Mae'r fadfall ddŵr gribog yn rhywogaeth warchoddedig. Ni ddylech ei thrafod nac aflonyddu arni heb drwydded. Os dowch o hyd i un ar ddamwain, dylech ei rhoi yn ôl yn yr union le y daethoch o hyd iddi ar unwaith.



Rhwydwaith gwirfoddol yw'r **Amphibian and Reptile Groups of the UK**. Mae gan bob grŵp ei raglen weithgareddau ei hun sy'n ymwneud â chadwraeth amffibiaid ac ymlusgiaid. Prif weithgaredd y rhan fwyaf o'r grwpiau yw cofnodi'r lle mae amffibiaid (ac ymlusgiaid) yn cael eu canfod. Mae gwybodaeth am sut gallwch gysylltu â'r grwpiau ar gael yn www.arguk.org.

Testun gan John Baker (ARC) a Lucy Carter (NHM). Mae'r lluniau trwy garedigrwydd Fred Holmes (ARC ac ARG UK).